Adalimumab, etanercept, infliximab, certolizumab pegol, golimumab, tocilizumab ac abatacept ar gyfer athritis gwynegol nad yw wedi'i drin yn flaenorol gyda DMARDau neu ar ôl i DMARDau confensiynol yn unig fethu

Ionawr 2016

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir adalimumab (Humira), etanercept (Enbrel), infliximab (Remicade, Remsima, Inflectra) certolizumab pegol (Cimzia), golimumab (Simponi), tocilizumab (RoActemra) ac abatacept (Orencia), wedi'u cymryd gyda chyffur o'r enw methotrexate. Maent yn driniaethau posibl ar gyfer pobl sydd ag arthritis gwynegol, o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:

- os yw eu cyflwr yn ddifrifol ac
- nad ydynt wedi ymateb i driniaeth gyda chyfuniad o gyffuriau gwrth-wynegol sy'n addasu clefydau (DMARDau).

Gellir defnyddio adalimumab, etanercept, certolizumab pegol a tocilizumab ar eu pen eu hunain os na all pobl gymryd methotrexate.

Dylid rhoi'r gorau i driniaeth ar ôl 6 mis os nad yw arthritis gwynegol yr unigolyn yn ymateb yn ddigon da.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych arthritis gwynegol difrifol, a bod eich meddyg yn credu mai adalimumab, etanercept, infliximab, certolizumab pegol, golimumab, tocilizumab neu abatacept yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai'r cyffuriau fod ar gael ar y GIG o fewn 3 mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i gymryd adalimumab, etanercept, infliximab, certolizumab pegol, golimumab, tocilizumab neu abatacept nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w cymryd.

Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Argymhellir adalimumab, etanercept, infliximab, certolizumab pegol, golimumab, tocilizumab ac abatacept oherwydd bod y buddiannau i gleifion yn cyfiawnhau eu cost.

Y cyflwr a'r triniaethau

Achosir arthritis gwynedol gan system imiwnolegol y corff yn ymosod ar gymalau iach. Mae'r cymalau dan sylw yn boenus, wedi chwyddo ac yn anystwyth, a thros amser cânt eu niweidio ac nid ydynt yn gweithio'n iawn mwyach.

Mae triniaeth ar gyfer arthritis gwynegol yn cynnwys grŵp o gyffuriau a elwir yn gyffuriau gwrth-wynegol sy'n addasu clefydau (DMARDau). Mae'r cyffuriau hyn yn gwella symptomau ac yn arafu niwed i'r cymalau. Fodd bynnag, nid yw'r math confensiynol ‘anfiolegol’ o DMARDau yn addas i bawb, ac nid yw arthritis gwynegol rhai unigolion yn ymateb yn dda iddynt.

Mae adalimumab, etanercept, infliximab, certolizumab pegol, golimumab, tocilizumab ac abatacept yn DMARDau 'biolegol'. Maent yn atal llid yn y corff er mwyn lleihau'r chwyddo yn y cymalau ac atal niwed pellach.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Ffynonellau cyngor a chymorth

- Gofal Arthritis, 0808 800 4050
  www.arthritiscare.org.uk

- Cymdeithas Genedlaethol Arthritis Gwynegol, 0800 298 7650 www.nras.org.uk

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1796-9